# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Tachwedd 2016

Amser: 14.00 - 16.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3745

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru<br>Simon Jones, Llywodraeth Cymru<br>Mick McGuire, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Gillian Body<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 109KB) Gweld fel HTML (365KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC. Nid chafwyd dirprwy ar ei ran.

1.3 Datganodd Lee Waters ei fod yn ffrind personol i Gadeirydd Maes Awyr Caerdydd. Datganodd Neil McEvoy fuddiant fel un a fu’n Gyfarwyddwr cwmni a wnaeth gais am grant gan Lywodraeth Cymru. Datganodd Mike Hedges fuddiant fel un a gyflogwyd yn flaenorol yn y diwydiant alwminiwm a dur.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

## 3 Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Holodd y Pwyllgor James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol a Mick McGuire, Cyfarwyddwr, Sectorau a Busnes, Llywodraeth Cymru ynglŷn â Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd.

3.2 Cytunodd James Price i wneud yr hyn a ganlyn:

- Rhoi eglurhad o sut y cafodd y broses o gaenu coiliau metel ei chategoreiddio fel bod o fewn y sector busnes 'Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch' a sut y daethpwyd i’r casgliad hwnnw;
- Anfon manylion am gyfradd methiant cyllid busnes yn Llywodraeth Cymru yn ystod y weinyddiaeth flaenorol;
- Rhannu’r asesiadau risg a gynhaliwyd fel rhan o'r diwydrwydd dyladwy ar gyfer cais Kancoat; ac
- Gwirio’r cofnod ynghylch ei ymateb ar natur y costau adfer ac os oes angen, anfon cywiriadau.

## 4 Maes Awyr Caerdydd: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad

4.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol o'i ymchwiliad i Gaffael Maes Awyr Caerdydd.
4.2 Holodd y Pwyllgor James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol a Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru ynglŷn â Chaffael Maes Awyr Caerdydd.
4.3 Cytunodd James Price i wneud yr hyn a ganlyn:

- Anfon manylion y dangosyddion perfformiad a ddatblygwyd gan Holdco;
- Yr effaith y bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei chael ar weithrediad Maes Awyr Caerdydd;
- Rhannu'r ohebiaeth mewn perthynas â rôl Cadeirydd CIAL ar Fwrdd Holdco;
- Anfon copi o'r Cynllun Meistr ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, pan fydd ar gael, yn 2017;
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y system offer glanio; a
- Dywedodd y byddai'n ailedrych ar y diwydrwydd dyladwy a roddwyd i Cardiff Aviation ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## 5 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

5.1 Nododd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol o'i ymchwiliad i'r Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn.
5.2 Holodd y Pwyllgor James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol a Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac Isadeiledd TGCh, Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn.

## 6 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

6.1 Nododd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol o'i ymchwiliad i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf
6.2 Holodd y Pwyllgor James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol a Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru ynglŷn â buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf.
6.3 Cytunodd James Price i anfon rhagor o wybodaeth yn egluro'r mentrau sy'n cael eu cymryd i godi ymwybyddiaeth a chynyddu sgiliau digidol ar gyfer defnyddwyr y rhyngrwyd.

## 7 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

7.1 Nododd yr Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf gan  Lywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol o'i ymchwiliad i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf
7.2 Holodd y Pwyllgor James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol a Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru ynglŷn â buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf.
7.3 Cytunodd James Price i anfon eglurhad o’r mewnbwn y bydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law ar gyfer eitemau 3 - 7

9.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunwyd ar y canlynol:

**Kancoat**

Gofynnodd yr Aelodau i'r Clercod baratoi crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd ynghyd ag argymhellion posibl i’w hystyried. Nododd yr Aelodau hefyd bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi trefnu i gynnal archwiliad o Ddulliau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru yn 2017.

**Maes Awyr Caerdydd**

Cytunodd yr Aelodau i dderbyn adroddiad cynnydd pellach ymhen 12 mis.

**Cyswllt awyr**

Gofynnodd yr Aelodau am i ganlyniadau adolygiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith o'r cwmni hedfan Gogledd-De fod ar gael i'r Pwyllgor pan gânt eu cyhoeddi.

**Band eang**

Cytunodd yr Aelodau na fyddant yn gofyn am ragor o ddiweddariadau yn sgil yr ymchwiliad a gynlluniwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Fand Eang.

**Cefnffyrdd**

Cytunodd yr Aelodau i ystyried eto a fydd angen unrhyw ddiweddariadau pellach ar ôl derbyn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, pan fydd ar gael.